At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 8 Mai 2018

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 15 MAI 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

Penodi Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

**4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

Penodi Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**EGWYL (15 munud)**

**6 COFNODION** (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 10 Ebrill 2018 (copi ynghlwm).

**7 AMSERLEN CDLL** (Tudalennau 15 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (copi ynghlwm) i geisio cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau i'r amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU** (Tudalennau 33 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) er mwyn i'r Cyngor ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2017/18.

**9 AMSERLEN Y PWYLLGOR AR GYFER 2019 AC ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** (Tudalennau 67 - 92)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) yn gofyn am benderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

**10 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

(i) Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

a. Bod Grantiau Gwisg Ysgol wedi'u darparu i blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig wrth iddynt ddechrau ym Mlwyddyn 7.
b. Bod gwerth y Grant yn £105 i bob disgybl.
c. Bod 156 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych wedi derbyn y Grant hwn yn 2017/18, ac ar gyfartaledd mae 166 o ddisgyblion y flwyddyn wedi'i dderbyn ers 2009/10.
d. Bod gwerth y Grant Gwisg Ysgol hwn ar gyfer CSDd y llynedd yn £16,380.

(ii) Mae'r Cyngor hwn yn condemnio cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y Grant Gwisg Ysgol.

(iii) Mae'r Cyngor hwn yn credu bod cyhoeddiadau heb eu cynllunio na'u hystyried yn creu ansicrwydd, ac y bydd rhaid i CSDd gyllidebu yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ac nid yn ôl sicrwydd amwys y bydd math arall o gyllid yn lle'r Grant.

(iv) Mae'r Cyngor yn ceisio eglurhad brys gan Lywodraeth Cymru o ran pa gyllid newydd fydd yn cael ei roi ar waith yn lle'r Grant Gwisg Ysgol, ac amserlen glir yn nodi pryd y dylai'r Cyngor ddisgwyl cael y cyllid hwn.

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae'r Cyngor yma yn galw ar Gyngor Sir Ddinbych i ddarparu cynhyrchion hylendid benywaidd am ddim i ysgolion Sir Ddinbych, gan sicrhau fod merched yn medru eu cael mewn modd sy'n parchu eu hurddas ac annibyniaeth".

## 12 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Paul Penlington y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i beidio ag adnewyddu contract Kingdom Security ym mis Tachwedd 2018 ac yn galw ar y Cabinet i gyfarwyddo swyddogion CSDd i ddod â phapur i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi yn amlinellu'r dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaeth tebyg gan ddefnyddio staff ac adnoddau eu hunain, ac yn canolbwyntio ar addysg a chefnogi'r cyhoedd yn hytrach na'u cosbi."

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 93 - 94)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Pete Prendergast
(Cadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Alan James

Richard Mainon
Christine Marston
Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch

Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned